Prifysgol Morgannwg

DATGANIAD POLISI CYNALIADWYEDD

Bwriad cynaliadwyedd ydy cyflawni anghenion dynol wrth ddiogelu'r amgylchedd er mwyn gallu cyflawni'r anghenion hyn nid yn unig yn y presennol, ond hefyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae ymrwymiad y Brifysgol i gynaliadwyedd yn cynnwys ymagwedd gyfannol sy'n golygu:

- Ymagwedd integredig, hir dymor i ddatblygu a chyflawni cymuned iachus ar gyfer staff, myfyrwyr ac ymwelwyr trwy fynd i'r afael â materion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ar y cyd, wrth osgoi gorddefnydd o adnoddau naturiol allweddol.
- Addasu cyfres o bolisïau a strategaethau sydd, dros amser, yn tanategu sut mae'r Brifysgol yn gweithio, gweithredu a chyflwyno'i hun i'r byd tu allan.
- Cydymffurfio â'r galw cynyddol i berfformio ar draws ystod eang o ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.
- Tynnu ar, a chynnwys, ein staff, myfyrwyr, ymwelwyr, cysylltiadau busnes, cyflenwyr, trigolion lleol a phartneriaid.

Fel un ffactor i ddangos ymrwymiad y Brifysgol i gynaliadwyedd, rydym wedi sefydlu system rheoli amgylcheddol yn unol â'r egwyddorion amlinellwyd yn BS EN ISO 14001:2004 "Systemau Rheoli Amgylcheddol". Mae Prifysgol Morgannwg yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau ar lefel israddedig ac ôl-raddedig ac mae ganddi weithgareddau ymchwil pwysig. Mae Llawlyfr Cynaliadwyedd wedi cael ei gynhyrchu sy'n adlewyrchu Dulliau Gweithredu'r Brifysgol a dangosyddion perfformiad allweddol yn y categorïau canlynol:

- Ynni, Dŵr a Rheoli Gwastraff
- Rheoli Carbon
- Teithio Cynaliadwy
- Rheoli Amgylcheddol
- Adeiladu ac Adnewyddu
- Caffael Cynaliadwy
- Bioamrywiaeth
- Cwricwlwm, Ymchwil a Datblygu

Bydd y rhain yn cyfrannu at ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer y cenedlaethau cyfredol a rhai'r dyfodol, yn ystod yr amser a dreulir gan staff, myfyrwyr neu ymwelwyr o fewn y Brifysgol. Cyhoeddir y llawlyfr gyda chaniatâd yr Is-ganghellor, sy'n atebol i'r Bwrdd Llywodraethwyr yn ymwneud â pherfformiad ac ymddygiad y Brifysgol. Ategir y Datganiad Polisi hwn gan ddatganiadau penodol eraill yn ymwneud ag agweddau cynaliadwyedd arbenigol, e.e. arbed ynni, traffig. Gellir dod o hyd i'r datganiadau ategol hyn yn y Llawlyfr.

I sicrhau bod y datganiad polisi hwn yn cael ei gadw'n ddiweddar, rydym wedi sefydlu archwiliad blynyddol. Mae tri amcan i'r archwiliad:

- Sicrhau ein bod yn ymateb yn gywir wrth i'r gyfraith newid.
- Diweddaru'r Llawlyfr Cynaliadwy yn unol â hyn.
- Gwirio ein bod yn cydymffurfio â'r dulliau gweithredu sydd wedi cael eu mabwysiadu.

Er mai gan Fwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Morgannwg mae'r cyfrifoldeb cyffredinol dros berfformiad cynaliadwy'r Brifysgol, mae rhaid i bob un ohonom rannu'r cyfrifoldeb hwn. Mae'r Llywodraethwyr yn annog pawb, staff a myfyrwyr, i ymddwyn mewn modd bydd yn cyflawni anghenion dynol wrth ddiogelu'r amgylchedd er mwyn gallu cyflawni'r anghenion hyn nid yn unig yn y presennol, ond hefyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a byddant yn falch o dderbyn unrhyw awgrym ymarferol am sut gellir gwella'n perfformiad.

Is-Ganghellor: JE Lyd

Dyddiad: 23/8/4